**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **13 Chwefror** |
| **Amser:** | **9.00am** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3** |

**Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu: Ymateb Drafft oddi wrth Brif Weinidog Cymru**

Cyflwyniad – rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae gan Gynulliad a Llywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae cyfran fawr o'r swyddogaethau sydd wedi'u datganoli i Gynulliad Cymru yn dod o dan gymhwysedd Ewropeaidd ac mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol am reoli rhaglenni'r UE yng Nghymru, a'r mwyaf o'r rhain yw'r Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Gan weithio o fewn fframwaith trefniadau cyfansoddiadol y DU rydym yn gweithio'n galed ar lefel Ewropeaidd i chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddylanwadu ar ddatblygiadau.

Mae'n perthynas â Llywodraeth y DU fel yr Aelod-wladwriaeth yn hollbwysig. O ganlyniad i'r cydweithio hwn mae gennym Swyddfa Cynulliad Cymru barhaol ym Mrwsel, sydd â statws diplomatig, ac sy'n gweithio'n glòs â Chynrychiolaeth Barhaol y DU. Rydym yn cydweithio i sicrhau bod safbwyntiau Cymru'n cael eu cynrychioli'n briodol yn y broses o lunio polisïau tra'n sicrhau bod ymagwedd gyffredinol y DU yn parhau'n gydlynol. Golyga hyn bod Gweinidogion Cynulliad Cymru'n mynychu cyfarfodydd pan fo hynny'n briodol.

Nod Pwyllgor Materion Ewropeaidd Cynulliad Cymru yw darparu arweiniad strategol ar faterion Ewropeaidd ac ystyried yn fanwl y materion hynny sy'n effeithio'n fwyaf uniongyrchol ar Gymru. Mae'r Cynulliad yn gweithio gyda rhanbarthau Ewropeaidd eraill drwy amrediad o rwydweithiau ar draws Ewrop. Mae gan Gymru bum ASE yn Senedd Ewrop a chawn ein cynrychioli hefyd ar Bwyllgor y Rhanbarthau ac Ecosoc.

Mae'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno llawer o raglenni'r UE ledled Cymru. Maent hefyd yn gweithredu rhannau helaeth o ddeddfwriaeth yr UE. Mae gan y gymdeithas ddinesig, gan gynnwys y sector gwirfoddol, rôl hanfodol i'w chwarae hefyd o ran gweithredu cynigion yr UE.

Y Papur Gwyn

1. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn **croesawu**, mewn egwyddor, fenter y Comisiwn i edrych ar lywodraethu yn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn cytuno na all y Comisiwn wella pethau ar ei ben ei hun ac rydym yn barod i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen.
2. Mae'r **pum egwyddor** ar gyfer llywodraethu da – bod yn agored, cyfranogiad, atebolrwydd, effeithiolrwydd a chydlyniad – yn gadarn ac mewn mwy nag un ffordd yn adlewyrchu dull y Cynulliad o lywodraethu yng Nghymru. Mae llawer o fanteision i Gymru o fod yn Aelod o'r Undeb Ewropeaidd ac mae'n effeithio'n arbennig ar ein bywydau. Mae gan y gwahanol rannau o'r Undeb Ewropeaidd – ei aelodau a'i sefydliadau – rôl i'w chwarae yn y gwaith o gyfathrebu gyda'r cyhoedd ynghylch y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd gan yr UE a'u heffeithiau ymarferol. Mae'n hanfodol fod pobl yn cymryd rhan yn y gwaith os yw'r UE am gysylltu â bywydau pobl ac mae ymgynghori'n gynnar yn hollbwysig i'r egwyddor hon. Mae'n bwysig bod pobl yn deall yn glir pwy sy'n gyfrifol am gymryd penderfyniadau a pham y caiff y penderfyniadau hynny eu cymryd.

3. **Cynnwys pobl** – rydym yn annog y Comisiwn i feddwl ynghylch sut y mae'n cyfathrebu â'r cyhoedd yn ogystal â chydag awdurdodau lleol a rhanbarthol. Mae'r Rhyngrwyd a gwefannau'r UE wedi bod yn gymorth i'w gwneud hi'n llawer haws i ddod o hyd i wybodaeth ac rydym yn cefnogi uchelgais y Comisiwn i ddefnyddio technolegau newydd i'r eithaf. Weithiau, gall ceisio cysylltu â phobl yn y Comisiwn fod yn brofiad rhwystredig, yn arbennig ar gyfer cyrff nad ydynt wedi'u lleoli ym Mrwsel. Rydym yn annog y Comisiwn i bwysleisio polisi ymysg ei staff o fod o fewn cyrraedd at bobl a chodi ymwybyddiaeth gyffredinol o werth ymateb yn bositif i gwestiynau oddi wrth y cyhoedd.
4. Dylai arddull ac iaith **cyfathrebu** fod yn glir a syml. Mae rhai dogfennau'n anodd i'w deall, a hynny'n ddianghenraid. Os na all y darllenydd ddeall y ddogfen, yna, fel arfer, y ddogfen sydd ar fai ac nid y darllenydd. A yw'r Comisiwn yn cyflogi'r bobl iawn i wneud y gwaith hwn (hy pobl sydd â phrofiad o is-olygu)?
5. Dylai ymgynghori'n ehangach ac yn gynt fod yn gymorth i greu **deddfwriaeth well**. Dim ond pan fo gwir angen hynny y dylid galw am ddeddfwriaeth. Dylid ei chadw mor syml â phosibl a chaniatáu digon o hyblygrwydd er mwyn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lleol.
6. **"Cytundebau teiran"** – mae hyn yn syniad diddorol pe gellir ei weithredu. Byddai mwy o amrywiaeth a chyfraniad rhanbarthol a lleol i bolisïau yn cael ei groesawu, mewn egwyddor, a gallai wneud i'r Undeb ymddangos yn fwy atebol a pherthnasol. Dylai "materion rhanbarthol" fod yn elfen bwysig o unrhyw gynlluniau er mwyn iddynt fod o unrhyw werth. Dylent fod yn "ysgafn": ni fyddai dull biwrocrataidd o fynd ati yn eu gwneud yn ddeniadol ar lefel ranbarthol, lle mae arian yn brin. Rydym yn annog y Comisiwn i gyflwyno cynigion mwy manwl.
7. Mae gan **Bwyllgor y Rhanbarthau** rôl sylweddol i'w chwarae yn y gwaith o fynegi barn y rhanbarthau ar gynigion y Comisiwn. Rydym yn cefnogi'r cynllun i ymgynghori â'r pwyllgor yn gynt, cyn i'r cynigion ymddangos ar eu ffurf cyhoeddiedig.
8. **Ymgynghori** yw'r prif ffordd o sicrhau bod partneriaid sydd â diddordeb yn gallu lleisio'u barn yn ystod y cyfnod o lunio polisïau. Mae rhai o ymgynghoriadau'r Comisiwn yn eang ac yn rhagorol – megis yr un sy'n sail i'r ymarfer llywodraethu hwn – ond yn aml maent yn ad-hoc ac yn fympwyol. I'r perwyl hwn, rydym yn gryf o blaid y syniad o God Ymarfer sy'n nodi safonau gofynnol y dylai'r Comisiwn lynu wrthynt wrth ymgynghori. Dylai hyn gynnwys cynnal a diweddaru cofrestr ganolog o sefydliadau y dylid cysylltu â hwy

ynghylch mentrau.

9. **Rheoliadau gwell –** Rydym yn credu mewn symlder. Dim ond pan fo gwir angen deddfwriaeth y dylid ei chyflwyno. Dylid ei chadw mor syml â phosibl. Os oes modd, dylid symleiddio deddfwriaethau sydd eisoes yn bodoli. Y gorau po leiaf. Dylid ystyried opsiynau eraill ar wahân i reoliadau pan fo hynny'n bosibl ee codau ymarfer, adolygiad cymheiriaid, meincnodi ac ati.

10. Casgliadau

Bydd rhai o'r materion a godwyd yn y Papur Gwyn yn cael eu rhoi ar waith yn sgil y ddadl **Dyfodol Ewrop** ac mae'r Papur Gwyn yn cydnabod hyn. Ond rydym yn annog y Comisiwn i ddefnyddio'r ymarfer hwn fel modd o gyflwyno gwelliannau buan i'r ffordd y mae'n gweithio. Ein blaenoriaethau ar gyfer canlyniadau ymarferol yw:

- Cod Ymarfer ar Ymgynghori
- Cyfathrebu gwell drwy wefannau a defnyddio iaith symlach
- Rheoliadau gwell
- Mwy o wybodaeth ar gytundebau teiran arfaethedig